Y Galon Dderi.

Fel tynnu gwaed mas o garreg
Neu dysgu cerddi llydaweg
Ma' ambell beth yn fwy anodd na'r llall.
Y nod oedd uno'r teuluoedd
Anghofio twyll y canrifoedd
A dod o hyd i'r galon dderi.

Fydd rhaid creu delwedd newydd
Ail greu'r gwir o'r hen gelwydd
Mae'r oll yn ysgrifenedig.
Mae eraill wedi cael llwyddiant
A ninnau'n diodde methiant
O' fel'na mae yn y galon dderi.

Ma' rhai yn byta yn iachus
Ma' rhai yn gwisgo yn barchus
Ac eraill yn ceisio bod o mor naturiol
'Rwy ti yn un o'r ffyddloniaid
Yn dawnsio i diwn yr anwariaid
Yw glywed yn curo yn y galon dderi.

O mae 'na amser gwell yn dyfod.

h c Geraint Griffiths 1995.